**Rachel Carter - Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur**

Ymunodd Rachel ag Un Llais Cymru ym mis Mehefin 2021 fel Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Mae cefndir Rachel mewn addysg uwchradd, gan weithio fel athrawes i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol am 19 mlynedd yng Nghyngor Abertawe. Mae gan Rachel BSc mewn Biocemeg, cymwysterau ôl-raddedig mewn addysg gwyddoniaeth uwchradd, anghenion dysgu ychwanegol, rheoli ymddygiad, ac mae hi ar hyn o bryd yn cwblhau ei MSc mewn cadwraeth a rheolaeth amgylcheddol.

Cariad Rachel at yr amgylchedd a blodau gwyllt, ynghyd â'i phrofiad fel cynghorydd Cymuned, oedd y catalydd y tu ôl i'r penderfyniad i newid cyfeiriad gyrfa ac ymuno ag Un Llais Cymru.

Mae Rachel wedi bod yn ymwneud yn flaenorol fel gwirfoddolwr ar gyfer elusennau achub cŵn, pori cadwraeth anifeiliaid ac mae'n un o sylfaenwyr grŵp morloi Gŵyr. Mae Rachel yn byw ar benrhyn Gŵyr ger Abertawe. Wrth dyfu i fyny ym Mhenrhyn Gŵyr mae Rachel bob amser wedi bod ag angerdd am fioleg a daearyddiaeth ac archwilio byd natur. Mae Rachel yn byw gyda'i gŵr a'i thri o blant ac yn ei hamser hamdden mae'n mwynhau heicio, mynd â'i dau gi am dro, coginio, a padlfyrddio. Mae Rachel yn ddysgwr Cymraeg ac yn frwd dros gynyddu'r defnydd o'r iaith yn y sector.